# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

# BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30y.h. NOS LUN, 8fed Ebrill, 2024.**

## 1. CROESO
Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod

## 2. YN BRESENNOL
Y Cynghorion Gwenda DAVIES; Irwedd GRIFFITHS; Glena Humphrey, Gethin OWEN; John D. Roberts, Goronwy R. WILLIAMS, Hefin WILLIAMS a Cynghorwydd Sir Gonwy Ifor G. Lloyd

## 3. YMDDIHEURIADAU
Cynghorion Bryn Jones a D Gwyn JONES;

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Glena Humphrey yn datgan diddordeb yn mater cynllunio a'r ffurflen wedi ei arwyddo.

## 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth 2023 (Cynnig y Cynghorydd Goronwy WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS

## 6. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## 7. CYLLID
Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Fawrth 2024. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

Chwefror 2024:

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £5,789.88 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | | = £300.00 – Eisteddfod Calan Mai |
| | | = £40.74 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL) |
| | | = £160.00 – Arfon Parry – Y Wefan |
| | Heb ei Cyflwyno | = £50.00 (RBL – Torchau Sul y Cofion – 200153) |
| | Cyfrif Cymunedol | = £4,777.35 (Cludwyd Ymlaen) |
| (2) | Cyfrif Busnes | = £5,641.20 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £27.28 (LLog Banc) |
| | Cyfrif Busnes | = £5,668.48 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £10,445.83 (Cludwyd Ymlaen). |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Roedd siec heb ei gyflwyno (200153) wedi mynd ar goll gan RBL. Mr Ken Baker wedi cadarnhau hyn. Siec 200153 wedi ei ganslo. Cyntunwyd godi siec arall.Siec 200156 wedi ei godi.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb
Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:
£40.74 – BT – Infois misol WiFi.
Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfoneb yma.

Fe gytunwyd I'r Clerc newydd ddod yn aelod or SLCC (Society of Local Council Clerks) am 12 mis. Mae'r cost eisio cael ei ddarganfod gan y Clerc erbyn y cyfarfod nesaf.

## 8. GOHEBIAETH

**i. Derbynwyd**

Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.

**ii. Anfonwyd**

a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

i. **Ceisiadau i'r Cyngor**

a. Doedd dim cais wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod diweddara.

ii. **Ceisiadau gan y Cyngor**

a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

b. Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

   Mae'r Clerc yn cyfarfod gyda Julie Leese ar yr 18fed Ebrill 2024.

10. **CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer**

- Cyfeirnod: 0/51449 Ymgeisydd: Nina Cole
  Derbynwyd: 01/02/2024 Cofrestrwyd: 13/02/2024
  Cynllun: Cadw strwythurau'r pafiliwn am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd
  Safle: White Lion Inn Llanelian Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YA
  Yn dilyn trafodaeth am bwrpas y 'cyfnod dros dro' ac ymhen pryd fyddai y pafiliwn yn cael ei symud oddi yna neu ei wneud yn barhaol, ac o soes unrhyw gynllun arall yn y dyfodol iddo. Mae problemau parcio yn bodoli yn y pentref ac mae'r pafiliwn wedi cymerydd peth o'r lle parcio fel y mae hi. Mae angen ymholi beth yw y cynllun hir-barhaol.
  **Mae'r cynllun wedi cael ie dynnu yn ol gan yr ymgeisydd**

- Cyfeirnod: 0/51432 Ymgeisydd: Mr Berwyn Jones
  Cynllun: Caniatâd amlinellol i godi annedd ar gyfer menter wledig newydd ar dir ym Mryn
  Ffanigl Ganol, Abergele (Adeiladu Ty Newydd)
  Safle: Bryn Ffanigl Ganol, Bryn Ffanigl Road, Rhyd Y Foel, Betws Yn Rhos LL22 8NF.
  Ymholiad i gymerydd lle i gael gwybodaeth beth yw'r pwrpas am y cartref fel y mae wedi ei gyfeirio fel 'menter wledig'

  Gadawodd Glena Humphrey y cyfarfod wedi datgan diddordeb yn y mater cynllunio yma.

  Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir.

  Rhoddodd Cynghorwydd Ifor Lloyd esboniad o bwrpas Menter Wledig.

  Nid oedd angen gyrru barn ychwanewgol i'r Cyngor.

  Ar ddiwedd y drafodiaeth ymunodd Glena Humphrey a'r cyfarfod.

11. **MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Archwilaid Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2024 yn mynd i fod yn 'Archwiliad Llawn', a bydd hyny yn meddwl llawer mwy o waith. Mae'r Gwaith eisio ei gwbwlhau erbyn 1af o Fehefin 2024.
Dywedodd Tom Jones y buasai yn gweithio ar hyn dros y mis nesaf ac ymhellach er mwyn ysgafnhau y gwaith i'r Clerc Newydd. Mae' Clerc yn mynd i gyd weithio gyda Tom Jones.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Rhoddodd Cynghorydd Sir Gonwy Ifor LLOYD y diweddaraf am faterion gorfodaeth cynllunio cyffredinol.

Mae cyllideb cynhalieth ffyrdd y Sir wedi cael ei dorri y flwyddyn nesaf. Roedd yn syniad i codi rhestr o'r ffyrdd gwaethaf yn yr ardal i gael ei yrru i Gynghorydd Ifor Lloyd

Cytunodd Cynghorion Irwedd Griffiths a John D Roberts gydweithio gyda'r Clerc i wnued y rhestr.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

- Diffibrilwyr. –Mae'r Clerc yn dal i geisio cael y defib yn Llanelian i ddod o dan gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned.
  Mae Tom Jones ar Clerc wedi edrych ar y 'defibs' yn yr ardal yn ogystal a'r byrddau gwybodaeth.Mae popeth yn ei le. Mae'r rhetsr o ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor Cymuned wedi ei rhoi yn y byrddau gwybodaeth.

  Cododd Cynghorwydd John D Roberts gael 'defib' yn ardal Dawn. Roedd closg teleffon yn Dawn ond mae wedi cael ei symud oddiynno gan BT.
  Y Clerc i ymchwil y gost o brynnu closg gan BT.
  Mae Cynghorydd Gwenda Davies yn mynd i ymdrechu siarad hefo Tomos Hughes (Ambiwlans) i ofyn am wybodaeth am loches i 'defib'.

- Yr Hwb - Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

- Roedd penderfyniad wedi ei wneud eisioes i roid y gwlau blodau ar ochr y ffordd B5381 wrth arwydd Betws yn Rhos.Fe cytunodd y cyfarfod i'r ail wely blodau gael ei gosod yn groesfford Rhwng y Ddwyffordd.
  Dywedodd y Cynghorydd Gethin OWEN y byddai yn ymdrechu i wnued hyn. Mae planhigion ar gael gan y Cyngor Sir.
  .

- Mae angen trafod ymhellach ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos. Mae angen trafod mwy am rhywle arall i adeiladu toiledau cyhoeddus yn y pentref. Mae Cynghorwydd John Evans ar bwyllgor chwaraeon a fydd rhaid iddynt ddarganfod lleoliad y pipellau carthion cyn fedrith unrhyw bendefyniad gael ei wneud am lleoliad y

toiledau newydd. Cynhorwydd John Evans i ymdrechu cael y gwybodaeth gan y Pwyllgor.

- Cwynion am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos. Dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir.
- Cwynion am barcio amhriodol ym mhentref Llanelian.. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ateb gan y Cyngor Sir.
- Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir ynghlyn a'r toiledau, y 'barrier' a'r parcio yn Llanelian. Fe godwyd mater arall sef 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Y Clerc i son am hyn wirth y Cyngor Sir.

**14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Cafodd y gyllideb flynyddol ei thrafod a'i chytuno. Mae'r praesept y flwyddyn i ddod wedi ei baratoi, a'i chytuno. Mae'r cais am y presept wedi ei yrru i'r Cyngor Sir, ond dim ymateb hyd yn hyn.

**15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Dywedodd y Clerc fod llythyr wedi ei gael gan gwmni Fferm Gwynt Mona yn rhoi manylion o'i cynllun.

Cynghorydd Ifor Lloyd yn cadarnhau fod y llinellau yn mynd o dan ddear. Os fydd unrhyw newid fydd y Cyngor Sir yn ymwybodol a'r gwybodaeth yn cael ei basio I'r Cyngor Cymuned..

**16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.
Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen, a gobeithir y bydd yr adeilad yn barod iw ddefnyddio yn Mis Mai/Mehefin.
Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos o hyn ymlaen nes bod yr adeilad newydd yn Llanelian wedi ei orffen.

Roedd Anne Dickinson wedi bod mewn cysyllyiad a Tom Jones ynglyn a chael WiFi yn y ganolfan. Roedd y cyfarfod o blaid i'r Cyngor dalu am y WiFi fel yn Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rihos.

**17. Y GADLAS**

Mae’r Cynghorydd Irwedd Griffiths wedi ysgrifennu erthygl am waith amaethaeol.
Dim awgrymiad arall.

**18. UNRHYW FATER ARALL**

a. Roedd y gegin yn Neuadd Bentref Betws yn Rhos angen dipyn o gynnal a chadw yn dilyn cael ei ddefnyddio gan yr Ysgol. Cafwyd gwybodaeth fod arian wedi ei gael gan yr ysgol i dalu am hyn.
Mater wedi cael ei gau.

b. Ynglun a’r angen cael cynrychiolydd ar yr LEA ar gyfer Ysgol y Plas, Dywedodd Cynghorydd Irwedd Griffiths fod Sian Ross wedi cael ei enwebi. Mater wedi ei gau.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.15yh.

CADEIRYDD: John EVANS

CLERC: Mel Jones

DYDDIAD: 13fed Mai 2024